

# TRIBIWNLYS ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG CYMRU CYFARWYDDYD YMARFER

## Rhagymadrodd

1. Yn y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn mae "y Ddeddf" yn cyfeirio at Ddeddf Addysg 1996; mae "y Rheoliadau" yn cyfeirio at Reoliadau Anghenion Addysgol Arbennig 2012; mae "y Cyfarwyddyd Ymarfer Cyntaf" yn cyfeirio at Gyfarwyddyd Ymarfer PD/04/2020 a wnaed ar 26 Mehefin 2020; mae "y Llywydd" yn cyfeirio at Lywydd y Tribiwnlys ac mae "y Tribiwnlys" yn cyfeirio at Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.
2. Roedd y Cyfarwyddyd Ymarfer Cyntaf yn gymwys hyd at 26 Rhagfyr 2020 ac mae bellach wedi'i adolygu gan y Llywydd yn unol â pharagraff 5 o'r Cyfarwyddyd Ymarfer Cyntaf. Mae'r adolygiad wedi ystyried pryderon yr Awdurdodau Lleol wrth gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Ymarfer Cyntaf.
3. Yn dilyn yr adolygiad, mae Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a'r Llywydd wedi penderfynu y bydd y Cyfarwyddyd Ymarfer Cyntaf yn peidio â bod yn gymwys o 27 Rhagfyr 2020 ymlaen ac y bydd y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yn gymwys yn y lle cyntaf am gyfnod o chwe mis o 27 Rhagfyr 2020 ymlaen. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, rhaid i'r Cyfarwyddyd Ymarfer gael ei adolygu gan y Llywydd a rhaid i'r Llywydd benderfynu a fydd y Cyfarwyddyd Ymarfer yn parhau mewn grym, naill ai ar ei ffurf bresennol ynteu gydag addasiadau, ac, os felly, am ba gyfnod o amser.

## Cyfarwyddiadau

4. Rhaid i'r bwndel ar gyfer gwrandawiadau apeliadau'r Tribiwnlys gynnwys, pan fônt ar gael, y dogfennau a nodir yn eitemau A i K isod:
  - A. Y cais am apêl, unrhyw seiliau apelio diwygiedig a'r Datganiad cyfredol (os yw'n gymwys)
  - B. Datganiad Achos y ddau barti
  - C. Llythyr penderfynu'r Awdurdod Lleol
  - D. Unrhyw geisiadau am newidiadau a wneir gan barti.
  - E. Gorchmynion Tribiwnlys ac unrhyw ddogfennau y gorchmynnodd y Tribiwnlys iddynt gael eu ffeilio
  - F. Unrhyw ohebiaeth berthnasol rhwng y partïon. Sylwch na ddylai hyn gynnwys gohebiaeth ynglŷn â dyddiadau cyfarfodydd neu faterion eraill nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i'r apêl/hawliad.
  - G. Adroddiadau perthnasol gan weithwyr proffesiynol sydd wedi'u paratoi heb fod yn fwy na thair blynedd o ddyddiad yr apêl
  - H. Adroddiadau adolygu blynyddol sy'n berthnasol i'r materion sydd i'w penderfynu gan y Tribiwnlys am y ddwy flynedd diwethaf
  - I. Unrhyw adroddiad asesu a chynnig lle (os yw'n gymwys) gan y sefydliad addysgol a enwir yn Rhan 4 o'r Datganiad a hefyd (os yw'n gymwys)

manylion cost y lleoliad addysgol arfaethedig a chost cludiant i'r person ifanc i'r lleoliad addysgol.

- J. Dogfen weithio derfynol a/neu restr y cytunwyd arni o'r materion sy'n weddill
- K. Datganiadau tystion sydd i'w rhoi mewn tystiolaeth
5. Ni chaiff y bwndeli, ar gyfer eitemau D i K, gynnwys mwy na 300 o dudalennau. Nid targed mo'r uchafswm hwn ac ni fydd angen y nifer hwn o dudalennau mewn llawer o achosion. Nid yw eitemau A i C wedi'u cynnwys yn yr uchafswm o 300 o dudalennau gan ei bod yn bwysig bod y partïon i'r gwrandawriad yn cael cyfle i gyflwyno'u hachos yn llawn.
6. Rhaid i'r bwndel ar gyfer gwrandawiadau hawliadau'r Tribiwnlys gynnwys, pan fônt ar gael, y dogfennau a nodir yn eitemau 1 i 6 isod:
- 1) Y cais am hawliad, unrhyw seiliau hawliad diwygiedig a'r Datganiad cyfredol (os yw'n gymwys)
  - 2) Ymateb y Corff Cyfrifol i'r hawliad ac unrhyw ymateb atodol neu ddiwygiedig
  - 3) Unrhyw geisiadau am newidiadau a wneir gan barti
  - 4) Gorchmynion Tribiwnlys ac unrhyw ddogfennau y gorchmynnodd y Tribiwnlys iddynt gael eu ffeilio
  - 5) Unrhyw ohebiaeth berthnasol rhwng y partïon
  - 6) Datganiadau tystion sydd i'w rhoi mewn tystiolaeth
7. Ni chaiff y bwndeli, ar gyfer eitemau 4 i 6, gynnwys mwy na 200 o dudalennau. Nid targed mo'r uchafswm hwn ac ni fydd angen y nifer hwn o dudalennau mewn llawer o achosion. Nid yw eitemau 1 i 2 wedi'u cynnwys yn yr uchafswm o 200 o dudalennau gan ei bod yn bwysig bod y partïon i'r gwrandawriad yn cael cyfle i gyflwyno'u hachos yn llawn.
8. Os bydd un neu ragor o'r partïon o'r farn na fyddai'n bosibl dangos y dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer y gwrandawriad o fewn yr uchafswm o 300 neu 200 o dudalennau ar y sail nad yw'n gyson â'r amcan cyffredinol o ddelio'n deg ac yn gyfiawn ag achosion, yna dylai'r parti neu'r partïon sy'n arddel y farn honno wneud cais i'r Tribiwnlys am ymestyn yr uchafswm tudalennau gan roi rhesymau clir pam mae angen cynnydd a pham mae cynnwys y dogfennau'n angenrheidiol er mwyn i'r mater gael gwrandawriad teg.

#### Apelydd neu Hawlydd heb gynrychiolydd

9. Pan nad oes gan yr Apelydd neu'r Hawlydd gynrychiolydd, ar ôl i ddatganiad achos yr Apelydd neu'r Hawlydd gael ei gyflwyno i'r Tribiwnlys a'r Awdurdod Lleol/Corff Cyfrifol, rhaid i'r bwndeli gael eu paratoi ar ffurf pdf electronig gan yr Awdurdod Lleol yn achos apêl a chan y Corff Cyfrifol yn achos hawliad a bydd y rheolau a ganlyn yn gymwys:
- a. Rhaid i'r Apelydd/Hawlydd gydweithredu â'r Awdurdod Lleol/Corff Cyfrifol wrth baratoi'r bwndel drwy ddarparu unrhyw ddogfennau y mae'r Awdurdod Lleol/Corff Cyfrifol yn gofyn amdanynt i'w cynnwys yn

y bwndel. Os methir â chydweithredu i sicrhau bod dogfennau perthnasol yn cael eu darparu o fewn y bwndel, caiff y Panel sy'n cynnal y gwrandawriad ddod i unrhyw gasgliadau ag y bo'n briodol o'r methiant wrth benderfynu'r apêl/hawliad (gan gynnwys, er mwyn osgoi amheuaeth, gasgliadau anffafriol).

- b. O dan yr amgylchiadau ym mharagraff 9 rhaid i'r Awdurdod Lleol/Corff Cyfrifol sicrhau bod yr holl ddogfennau a gynhwysir yn y bwndel yn gyflawn, yn ddarllenadwy ac nad ydynt wedi'u dyblygu. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol/Corff Cyfrifol yw sicrhau dogfennau cyflawn a darllenadwy. Rhaid paratoi mynegai sy'n rhoi manylion pob un o'r dogfennau ac sy'n manylu ar y math o ddogfen, ei dyddiad a'r awdur ynghyd â'i swydd. Dylid paratoi'r mynegai mewn dogfen Word a'i gyflwyno fel dogfen ar wahân i'r bwndel pdf electronig o ddogfennau.
  - c. Cyn i'r bwndel gael ei gwblhau, rhaid anfon bwndel drafft at yr apelydd i gael ei gytuno. Os na cheir ymateb gan yr apelydd yn cytuno â'r bwndel o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl ei anfon, bydd gan yr Awdurdod Lleol/Corff Cyfrifol hawl i dybio bod y bwndel wedi'i gytuno ac y gellir ei gyflwyno i'r Tribiwnlys
  - d. Rhaid i'r Tribiwnlys gyfuno'r bwndeli a'r mynegai a ddaeth i law, rhifo a chwblhau'r mynegai ac anfon copiâu o'r bwndel pdf electronig at y partiön o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y gwrandawriad.
10. Os nad yw'r bwndel a gyflwynir yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn, bydd Ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys yn rhoi gwybod i'r partiön am y diffyg cydymffurfio ac o fewn tri diwrnod gwaith o'r hysbysiad hwnnw rhaid i'r Awdurdod Lleol/Corff Cyfrifol sicrhau bod y bwndel yn cydymffurfio. Gall methiant ar ran yr Awdurdod Lleol/Corff Cyfrifol i gydymffurfio â'r rhwymedigaeth hon arwain at orchymyn gwahardd yn ei erbyn os bydd cyfiawnder yr achos yn mynnu hynny.

#### Apelydd neu Hawlydd â chynrychiolydd

11. Pan fo gan yr Apelydd neu'r Hawlydd gynrychiolydd, rhaid i bob parti baratoi ei fwndel ei hun o ddogfennau ar ffurf pdf electronig a bydd y rheolau a ganlyn yn gymwys:
- a. Rhaid i bob parti sicrhau bod yr holl ddogfennau a gynhwysir yn ei fwndel ei hun o ddogfennau yn gyflawn, yn ddarllenadwy ac nad ydynt wedi'u dyblygu. Cyfrifoldeb pob parti yw sicrhau dogfennau cyflawn a darllenadwy. Rhaid i bob parti baratoi ei fwndel o ddogfennau gan roi manylion pob un o'i ddogfennau a manylu ar y math o ddogfen, ei dyddiad a'r awdur ynghyd â'i swydd. Dylid paratoi'r mynegai mewn dogfen Word a'i gyflwyno fel dogfen ar wahân i'r bwndel pdf electronig o ddogfennau.
  - b. Rhaid i'r Apelydd/Hawlydd ddarparu heu bwndel o ddogfennau i'r Awdurdod Lleol/Corff Cyfrifol a'r Tribiwnlys ar ffurf pdf electronig heb

fod yn hwyrach na phum diwrnod gwaith ar ôl cyfnod y datganiad achos. Y rheswm am hyn yw galluogi'r Awdurdod Lleol/Corff Cyfrifol i dynnu unrhyw ddogfennau o'u bwndel hwythau o ddogfennau sydd wedi'u dyblygu ym mwndel dogfennau'r Apelydd/Hawlydd. Os bydd cynrychiolydd yr Apelydd/Hawlydd yn methu darparu eu bwndel nhw o ddogfennau i'r Awdurdod Lleol o fewn yr amserlen a enwyd, bydd yr Apelydd/Hawlydd yn cael ei wahardd rhag cyflwyno unrhyw ddogfennau i Banel y Tribiwnlys yn y gwrandawriad.

- c. Rhaid i'r Awdurdod Lleol/Corff Cyfrifol ddarparu eu bwndel nhw o ddogfennau i'r Tribiwnlys ar ffurf pdf electronig heb fod yn hwyrach na 10 diwrnod gwaith ar ôl cyfnod y datganiad achos. Os bydd yr Awdurdod Lleol/Corff Cyfrifol yn methu darparu eu bwndel nhw o ddogfennau i'r Tribiwnlys o fewn yr amserlen a enwyd, bydd yr Awdurdod Lleol/Corff Cyfrifol yn cael ei wahardd rhag cyflwyno unrhyw ddogfennau i Banel y Tribiwnlys yn y gwrandawriad.
- d. Rhaid i'r Tribiwnlys gyfuno'r bwndeli a'r mynegeion a ddaeth i law, rhifo a chwblhau'r mynegai ac anfon copïau o'r bwndel pdf electronig at y partïon o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y gwrandawriad.

12. Os nad yw'r bwndel o ddogfennau a gyflwynir gan barti yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn, bydd Ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys yn rhoi gwybod i'r parti sydd ar fai am y diffyg cydymffurfio ac o fewn tri diwrnod gwaith o'r hysbysiad hwnnw rhaid i'r parti sicrhau bod y bwndel o ddogfennau'n cydymffurfio. Gall methiant ar ran unrhyw un o'r partïon i gydymffurfio â'r rhwymedigaeth hon arwain at orchymyn gwahardd yn ei erbyn os yw cyfiawnder yr achos yn mynnu hynny.

Syr Wyn Williams  
Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

Rhiannon Walker  
Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

27 Rhagfyr 2020